

## Cynllun dysgu Proffesiynol Gwent Is Coed 2018/19

Mae cyfrifoldeb cyfunol arnom i **ysbrydoli, ysgogi ac ennyn diddordeb** ein disgyblion wrth gwireddu pedwar dibyn y cwricwlwm:

- yn **ddysgwyr uchelgeisiol, galluog** sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- yn **gyfranwyr mentrus, creadigol** sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
- yn **ddinasyddion egwyddorol**, gwybodus yng Nghymru a'r byd
- yn **unigolion iach, hyderus** sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Bwriadwyd gwireddu hyn dros cyfnod y tair mlynedd 2018-2021 trwy weithredu fel "Ysgol fel Sefydliad Dysgu" a thrwy ymroi i amcanion "Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl".

### Blaenoriaethau ar gyfer dysgu proffesiynol

Dros y blynyddoedd nesaf, bydd yn hollbwysig ein bod yn grymuso ein hysgol i gyflawni pedwar diben ein cwricwlwm newydd ym mhob cyd-destun ac yn gwella safon yr asesu ar gyfer dysgu.

Bydd ein addysgwyr yn **cydweithio i lunio gweledigaeth arloesol** ar gyfer ein hysgol gan:

- sicrhau ein bod ni'n parhau i ddatblygu cyfundrefn addysgiadol sy'n **cyfuno tegwch â rhagoriaeth**
- **pennu disgwyliadau uchel** ar gyfer ein holl ddysgwyr ac athrawon.
- **ymrwymo i lwyddiant a lles pob dysgwr.**
- **datblygu ein hathrawon i fod yn myfyrwyr ymroddedig** ac yn ddysgwyr proffesiynol gydol oes er mwyn cyfranu tuag at codi safonau i'n holl disgyblion.
- ddatblygu **arweinwyr sy'n:**
  - **ysbrydoli ac yn cydweithio,**
  - **ymrwymedig i godi safonau a lleihau'r bwlch cyrhaeddiad.**

Yn unol â **Blaenoriaethau ar gyfer dysgu proffesiynol** yr holl staff disgwylir i bob ymarferydd gymryd cyfrifoldeb am ei ddatblygiad a'i ddysgu proffesiynol ei hun a chyfrannu tuag at ddatblygiad eraill.

Gallwn atgyfnerthu **Blaenoriaethau ar gyfer dysgu proffesiynol** yr holl staff gan sicrhau bod pob aelod o staff:

- yn derbyn cefnogaeth a gwerthfawrogiad er mwyn parhau i ddatblygu i fod yn:
  - **ddinasyddion egwyddorol**, gwybodus yng Nghymru a'r byd
  - **unigolion iach, hyderus** sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.
- yn cael cyfleoedd a'r hawl i ddatblygu:
  - gan barhau i fod yn **addysgwyr<sup>1</sup> uchelgeisiol, galluog** sy'n parhau i ddysgu drwy gydol eu hoes, o ran eu cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd (llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol) a'u dealltwriaeth gyffredinol o addysgeg
  - yn **gyfranwyr mentrus, creadigol** sy'n barod i ddangos blaengaredd wrth chwarae eu rhan yn llawn ym mywyd yr ysgol

Gallwn wneud hyn trwy sicrhau bod **Nodau Dysgu Proffesiynol** yr ysgol yn:

- cynnal y ffocws ar **wella addysgu a dysgu**
- sicrhau bod **pob ymarferydd** yn cael mynediad at ddysgu proffesiynol effeithiol ac yn manteisio ar hynny
- ein galluogi i ddatblygu a gwella arweinyddiaeth ac addysgeg yn barhaus
- **paratoi ar gyfer y dyfodol drwy ein cynorthwyo i arbrofi er mwyn gwireddu'r cwricwlwm newydd.**

Rhaid meithrin **gallu'r holl ymarferwyr ac arweinwyr** trwy:

- Adnabod ymarfer rhagorol<sup>2</sup>
- Sicrhau cyfleoedd i ymarferwyr:
  - weld ymarfer dda yn weithredol
  - profi'r ymarfer dda

## Amserlen cyflwyno Ysgol Gyfun Gwent Is Coed

**Byddwn ni fel ysgol yn sicrhau ein bod ni yn:**

- Ysgol cryf a chynhwysol sydd wedi **ymrwymo i sicrhau rhagoriaeth, tegwch a lles.**
- **Datblygu Arweinwyr sy'n ysbrydoli** ac sy'n cydweithio i godi safonau.

---

<sup>1</sup> Neu wneud cyfraniad tuag at addysgu yn yr ysgol a bod y cyfraniad yn cael ei adnabod a'i werthfawrogi

<sup>2</sup> *Gan gynnwys ymarferwyr mewn sefydliadau addysgol eraill*

- Datblygu **proffesiwn addysg o safon uchel.**

**Yn ystod y cyfnod tan 2018-21, ac yng nghyd-destun pedwar diben y cwricwlwm newydd, byddwn yn:**

- Parhau i dyfu fel **sefydliad sy'n dysgu** gan ffocysu ar **ddefnyddio ymchwil addysgeg ddibynadwy** gan sicrhau bod unrhyw strategaethau yn cael i fyfyrion yn effeithiol
- **yn ymrwmo i rannu tystiolaeth ymchwil ac ymarfer effeithiol**
- cynyddu ein cyswllt gyda prifysgolion y tu hwnt i addysg gychwynol athrawon ac adeiladu ar eu rôl o ran cefnogi proffesiwn sy'n ymwneud ag ymchwil
- **datblygu sail wybodaeth, arbenigedd ac ymchwil y system hunanwella** drwy gefnogi **cydweithio o fewn yr ysgol ac mewn cydweithrediad ag ysgolion**, consortia rhanbarthol a sefydliadau addysg uwch
- adeiladu ar ein hymrwymiad i degwch mewn addysg drwy paratoi ar gyfer gyflwyniad fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer nodi a chefnogi dysgwyr drwy Fil **Anghenion Dysgu Ychwanegol** a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)
- rhoi rhyddid i'n hymarferwyr ddefnyddio eu proffesiynoldeb a'u creadigrwydd i ddiwallu anghenion pob dysgwr gan gynnwys **plant sy'n derbyn gofal** a'r rhai sy'n **gofalwyr**.
- cyfranu tuag at datblygu dull gweithredu gwedd newidiol mewn perthynas â dysgu, addysgu ac asesu'r Gymraeg trwy gweithredu fel **sefydliad hwb addysg yr iaith Gymraeg**.
- **ymestyn a hybu profiadau ehangach dysgwyr** fel bod dysgwyr yn elwa ar y cyfleoedd dysgu gorau posibl yn yr ysgol a'r tu allan iddi.
- **datblygu cydweithrediad fwy effeithiol gyda'r asiantaethau lleol gan gynnwys y bwrdd iechyd lleol.**
- **monitro perfformiad gwahanol grwpiau o ddysgwyr**, gan ddefnyddio'r holl ddata sydd ar gael, gyda ffocws penodol ar leihau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig a'u cyfoedion.
- **gwella deilliannau a darpariaethbar gyfer dysgwyr ein chweched dosbarth** a darpariaeth
- **parhau i gydweithio ac adeiladu ar lwyddiant Rhwydwaith Seren.**

Yn y byr dymor<sup>3</sup>, er mwyn meithrin gallu, mae angen gwneud cynnydd cyflym o ran cefnogi ein gweithwyr addysg proffesiynol i:

- ddefnyddio'r technolegau a'r sgiliau perthnasol i weddnewid **cymhwysedd digidol** ein dysgwyr
- **diwallu anghenion pob dysgwr** ag anghenion dysgu ychwanegol, yn unol â gofynion deddfwriaeth newydd

---

<sup>3</sup> *Amcan cenedlaethol yw hyn*

- **addysgu Cymraeg fel iaith fyw** a sicrhau y gall niferoedd mwy weithio'n effeithiol mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog
- **gwella safon addysgu** er mwyn ymestyn ein dysgwyr mwyaf abl, gan gynnwys **gwella deilliannau i ddysgwyr yn ein dosbarthiadau chweched dosbarth**
- sicrhau'r arferion diogelu mwyaf effeithiol (gan gynnwys diogelwch ar-lein) a chefnogi lles gwell drwy ddatblygu **gweithlu sy'n ymwybodol o brofiadau andwyol yn ystod plentyndod**
- annog tueddiadau ymddygiad cadarnhaol a **datblygu trefniadau pontio** ar gyfer ein holl ddysgwyr **ar bob cyfnod allweddol**.

**I gyflawni hyn, byddwn yn cynllunio i wneud y canlynol.**

#### **2018-2019**

- Parhau i dyfu fel **sefydliad sy'n dysgu** gan ffocysu ar **ddefnyddio ymchwil addysgeg ddibynadwy** gan sicrhau bod unrhyw strategaethau yn cael i fyfyrion yn effeithiol
- **Sefydlu Safonau addysgu proffesiynol ar waith yn ganolog i gyfundrefn Gwireddu Potensial yr ysgol.**
- Parhau i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd ac i'w ddefnyddio drwy ddarpariaeth arweinyddiaeth a dysgu proffesiynol ar lefel ysgol ac mewn cydweithrediad ag ysgolion arall.
  - Parhau i dreialu'r cwricwlwm ac yn ei roi ar brawf; cynllunio a pharatoi ar gyfer newidiadau.
  - Ymateb i ymgynghoriad ar cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd (*Pasg 2019*)
- Cydweithio â phartneriaid, yng Nghymru a thu hwnt, ar **ffyrdd effeithiol o fesur lles dysgwyr**.
- **Diwallu anghenion pob dysgwr** ag anghenion dysgu ychwanegol, yn unol â gofynion y **Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol** a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (*BADYTAC*)
- Cefnogi partneriaid allweddol i ddatblygu cyfleoedd dysgu proffesiynol er mwyn galluogi ymarferwyr allweddol i ddod yn **ymwybodol o brofiadau andwyol yn ystod plentyndod**.

Yn benodol byddwn yn:

- **Parhau i ddatblygu gyfundrefn Monitro, arfarnu a gwella presenoldeb a phrydlondeb ar draws yr ysgol.**

## **1. Parhau i gynllunio ar gyfer y cwricwlwm Dyfodol Llwyddiannus.**

- **Parhau i ddatblygu rhaglen cydlynus i ddatblygu dysgu proffesiynol yr holl staff**
- **Parhau i ddatblygu trefniadau pontio ar gyfer ein holl ddysgwyr ar bob adeg allweddol.**
- Parhau i ddatblygu strategaeth i gefnogu gofalwyr ifanc yn yr ysgol a'r clwstwr
- Cydweithio clwstwr wrth ddatblygu strategaeth lles
- **Parhau i wella safon addysgu er mwyn ymestyn ein dysgwyr**
  - Datblygu perfformiad yn y prif fesurau allweddol yn ogystal a safonau medrau'r disgyblion
  - Datblygu lles ein disgyblion gan dalu sylw arbennig at bresenoldeb
  - Datblygu arweinyddiaeth trwy barhau i weithio fel 'Ysgol sy'n Sefydliad Dysgu' (SLO)
  - Lleihau'r amrywiad yn yr addysgu a datblygu llais y disgybl a theithiau dysgu i gasglu tystiolaeth ehangach, gyda ffocws arbennig ar adborth ac Amser coch

## **2019-2020**

- **Ymateb i hunan arfarniad 2018-19**
- Cyflwyno y cwricwlwm newydd
- Cydweithio gyda darparwyr rhaglenni addysg gychwynnol athrawon newydd.
- Gweithredu Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru),
- Clymu mewn trafodaeth profesiynol ar ETLF i wireddu potensial yr athro
- Datblygu Cymhwysedd Digidol ym mhellach
- Datblygu cydundrefn asesu Cwricwlwm i Gymru ar y cyd gyda'r cynradd

## **2020-2021**

- **Ymateb i hunan arfarniad 2019-20**
- Cymhwyso cyfundrefn asesu Cwricwlwm i Gymru

Nodir isod ein gweithgareddau **Dysgu Proffesiynol** yn unol a chynllun datblygu ysgol gyfan 2018-19 sy'n deillio yn uniongyrchol o'r hunan arfarniad. Mae'r gweithgareddau wedi datblygu gyda'r nod o weithredu fel "**Ysgol sy'n Sefydliad Dysgu**" trwy waith yr OECD a trwy ymateb i'r ddogfen "**Addysg yng Nghymru: Cenhedaeth ein Cenedl**" y cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Rhif	Cyswllt Cenhadaeth Cenedlaethol	Gweithgaredd	Meini Prawf Llwyddiant	Ffynhonell cyllid	Matho wariant Tâl/Cyflogu Ail Strwythuro Rhyddhau Adnoddau Hyfforddiant neu datblygiad	Cost
1	Arweinwyr sy'n ysbrydoli ac sy'n cydweithio i godi safonau. Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel. Trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd cadarn i ategu system hunanwella.	Cydweithio gyda'r ysgolion cynradd wrth ddadansoddi canlyniadau'r profion cenedlaethol. Cydweithio gyda'r ysgolion cynradd er mwyn gosod targedau heriol ond realistig i'r GCA	Canlyniadau'r ysgol o'r safon uchaf wrth gymharu ag ysgolion tebyg. Canlyniadau dysgwyr yn dangos cynnydd	Grant datblygiad Proffesiynol GDP	Amser cynllunio Amser ymchwilio  Pen Maes a Dirp (4 x £250 + £300) x 1/2	£650
10	Ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i sicrhau rhagoriaeth, tegwch a lles	Datblygu a gwreiddio prosesau adferol; cynllunio ar gyfer anwytho a hyfforddi staff newydd. Gwaith ac hyfforddiant clwstwr ar hyn yn ystod 2017-2018 i gysoni'r defnydd ar draws y clwstwr (i'w drefnu ar y cyd gyda'r Cynradd)	Y system yn weithredol ac yn effeithiol; llai o ddigwyddiadau ymddygiad, dysgwyr bl.7 yn setlo.	GDP	Arian ar gyfer rhyddhau JBR i gael yr hyfforddiant yn ystod 2017-2018, amser yna yn 2018/19 I hyfforddi staff. Hyfforddiant cyflawn DMJ yn ystod 2018-2019 DMJ a JBR x diwrnod=4 x £250 Amser HMS er mwyn cwblhau'r gwaith clwstwr.	£500
15	Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel. Trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd cadarn i ategu system hunanwella.	Stamp a gweledigaeth Gwent Is Coed. Sicrhau cysondeb cynlluniau gwaith; datblygu fformat cytun, sicrhau bod pob maes yn ei ddefnyddio	Bod cynlluniau gwaith cytun a chyson yn cael eu defnyddio ar draws yr ysgol. Bod hyn yn sicrhau cysondeb a thystiolaeth o	GDP	Amser i drafod a datblygu/mireinio'r cynlluniau. Pen Maes a Dirp (4 x £250 + £300) x 1/2	£650

Rhif	Cyswllt Cenhadaeth Cenedlaethol	Gweithgaredd	Meini Prawf Llwyddiant	Ffynhonell cyllid	Matho wariant Tâl/Cyflogu Ail Strwythuro Rhyddhau Adnoddau Hyfforddiant neu datblygiad	Cost
			sgiliau yn cael eu datblygu ar draws. Bod safonau dysgwyr yn codi o ganlyniad			
17	Arweinwyr sy'n ysbrydoli ac sy'n cydweithio i godi safonau.	Gwreiddio Fframweithiau LIRh a CD o fewn cynlluniau gwersi a chynlluniau gwaith yr ysgol gyfan i godi safonau cyflawniad CA3.	Fformat cytun ar gyfer cynlluniau gwaith Safonau cyflawniad CA3 yn codi Ymwybyddiaeth gwell gan staff a dysgwyr o natur trawsgwricwlaidd/trosglwyddadwy sgiliau	GDP	Amser Arian i rhyddhau staff Pen Maes a Dirp Diwrnod $2 \times \pounds 250 + \pounds 300 = \pounds 800$	£800
18	Arweinwyr sy'n ysbrydoli ac sy'n cydweithio i godi safonau.	Stamp a gweledigaeth Gwent Is Coed. Datblygu prosesau monitro adrannol y meysydd; cynllunio, asesu a chraffu ar waith. Datblygu cynlluniau MATH. Datblygu rôl arweinwyr canol yn y cylch hwn.	Bod prosesau cytûn a chysondeb yn cael eu datblygu ar gyfer cynllunio, asesu a chraffu ar waith. Bod cynlluniau gwaith effeithiol a gwahaniaethol ar gael. Bod y rheolwyr ganol yn cymryd rhan llawn yn y cylch monitro. Safonau dysgu ac addysgu yn codi o ganlyniad.	GDP	Rhyddhau Hyfforddiant / datblygiad Pen Maes a Dirp $(4 \times \pounds 250 + \pounds 300) \times 1/2$	£650
20	Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel. Trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd cadarn i ategu system hunanwella.	Stamp a gweledigaeth Gwent Is Coed. Gwella prosesau Gwahaniaethau; cynllunio ar gyfer gwahaniaethu, adnoddau, gweithgareddau o fewn y dosbarth ac ati. Sicrhau darpariaeth o safon uchel i ddysgwyr ADY a MATH. Cryfhau ymagweddau gwahaniaethol	Bod y prosesau gwahaniaethu yn datblygu'n effeithiol ac yn cael eu gwreiddio yn ethos addysgeg yr ysgol.	GDP	Rhyddhau Hyfforddiant / datblygiad Pen Maes a a Dirp $(4 \times \pounds 250 + \pounds 300) \times 1/2$ Diwrnod cyfan ALNCo +£250	£900

Rhif	Cyswllt Cenhadaeth Cenedlaethol	Gweithgaredd	Meini Prawf Llwyddiant	Ffynhonell cyllid	Matho wariant Tâl/Cyflogu Ail Strwythuro Rhyddhau Adnoddau Hyfforddiant neu datblygiad	Cost
		tuag at gynllunio. Er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn derbyn digon o gyfleoedd i weithio'n annibynnol/mewn parau/grwpiau: yn benodol annibynnuaeth dysgwyr MATH, defnydd cwestiynnu a chynllunio penodol ar gyfer cwestiynau hierarchaidd.	Bod y gwahaniaethu'n effethiol ac yn arwain at godi safonau.			
28	Arweinwyr sy'n ysbrydoli ac sy'n cydweithio i godi safonau. Ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i sicrhau rhagoriaeth, tegwch a lles	Parhau i wreiddio'r cyd-adeiladu a chyd-weitho o fewn y clwstwr. YGC i gynnal hyfforddiant P4C i staff GIC, datblygu prosesau adferol cyson ar draws y clwstwr. Datblygu Meddwlgarwch. Parhau i adeiladu ar y prosesau pontio/cyfathrebu.	Bod prosesau'r clwstwr yn fwyfwy cyson. Bod prosesau adferol a P4C yn cael eu datblygu a'u gwreiddio yn GIC. Cyfathrebu effeithiol a gwerthfawr rhwng yr ysgolion Cynradd a GIC.	GDP	Rhyddhau Hyfforddiant / datblygiad	Ysgol yn talu
39	Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel. Trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd cadarn i ategu system hunanwella.	Sicrhau bod amcanion rheoli perfformiad yn cydfynd gyda gwella safonau a/neu darpariaeth. Rhaid bod yr amcanion yn feintiol ac yn cyfeirio at ddatblygiad sgiliau rhifedd a llythrennedd dysgwyr ar draws y cwricwlwm. Rhaid iddynt gyfeirio at y safonau proffesiynol newydd.	Bod yr amcanion yn feintiol, yn cydfynd gyda gwella safonau ac yn seiliedig ar y safonau newydd.	GDP	Rhyddhau Hyfforddiant / datblygiad	Ysgol yn talu



